

Ymyrraeth Gynnar I Leihau Troseddau Ieuencid

YMCHWILYDD

Dr Gareth Norris

TROSLWGW

Gan weithio ar y cyd â Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ac Atal Ceredigion (GCIAC), datblygodd Dr Norris offeryn asesu risg pwrpasol (CYSTEM) a newidiodd y ffordd yr asesir pobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio ar draws pedwar Tîm Troseddau Ieuencid Dyfed-Powys. Diolch i CYSTEM, cefnogwyd traean o droseddwr risg isel rhag dod i gysylltiad ffurfiol gyda chyfiawnder troseddol, gan ganiatáu i adnoddau gael eu cyfeirio at unigolion risg uwch a oedd fwyaf tebygol o elwa ar ymyrraeth wedi ei thargedu. Ochr yn ochr â'r effaith ar randdeiliaid lleol unigol, fe wnaeth yr arbenigedd arwain at greu polisi gwybodus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, yr Heddlu, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'r Swyddfa Gartref yn y Deyrnas Unedig a thramor.



YR YMCHWIL

Drwy gydweithrediad wedi'i ariannu gyda GCIAC, cynlluniwyd a defnyddiwyd offeryn asesu risg, CYSTEM, er mwyn mabwysiadu dull pragmatig o gadw pobl ifanc allan o'r system Cyfiawnder Ieuencid ffurfiol. Mae'r offeryn cyn-sgrinio wedi cael ei ddefnyddio gan GCIAC ers mis Ebrill 2016, ac mae wedi cael ei fabwysiadu i'w ddefnyddio gyda phawb sy'n cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ar draws heddlu Dyfed-Powys ers Ebrill 2018. Defnyddiwyd yr offeryn hefyd i ddewis ymgeiswyr ar gyfer prosiectau a ariennir gan y Swyddfa Gartref sy'n targedu risg o gyfranogi mewn Troseddau Cyfundrefnol. Cyrhaeddodd y prosiect y rhestr fer ddwywaith yng ngwobrau Cynghair Howard ar gyfer Diwygio'r Deddfau Cosbi.

“ Mae datblygu Offeryn Sgrinio Ieuencid Ceredigion (CYSTEM) wedi bod yn ysgogiad pwysig er mwyn newid y broses o asesu a phrosesu pobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth. Mae CYSTEM wedi caniatáu i ni ddefnyddio'r adnoddau i ganolbwyntio ar yr unigolion mwyaf allweddol ac osgoi stigmatiddio'r achosion isel iawn eu risg; mae ffigurau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod hyn wedi cael effaith ar niferoedd y pobl ifanc sydd wedi ailymuno â'r system. ”

**PENNAETH CYFIAWNDER IEUENCTID CEREDIGION,
19 GORFFENNAF 2019**

Cyrhaeddodd y prosiect y rhestr fer ddwywaith yng ngwobrau Cynghair Howard ar gyfer Diwygio'r Deddfau Cosbi.

YR EFFAITH

CAFODD DULL 'PLENTYN YN GYNTAF' EI FABWYSIADU A' GYMHWYSO GYDA PHOBL IFANC CEREDIGION A DYFED-POWYS

Fe wnaeth hyn leihau'r stigma/labelu yr oedd pobl ifanc a oedd yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth yn ei brofi, gyda hynny yn ei dro yn lleihau ymhellach y tebygolrwydd o droseddwr risg isel yn troseddu eto. Bu gostyngiad o tua 30% yng nghyfanswm llwyth achos y cyfeiriadau yng Ngheredigion. Mae'r gwaith atal ehangach wedi'i adolygu ledled Cymru fel rhan o brosiect Braenaru Cyfiawnder Ieuencid.

ARBEDION SYLWEDDOL O RAN AMSER STAFF AC ADNODDAU ARIANNOL

Gall defnyddio CYSTEM ar gyfer traean yr achosion arbed rhwng tair a phum awr i bawb sy'n cael eu cyfeirio at y system, a rhwng tua 150 a 200 awr y flwyddyn i bob gweithiwr achos. Mae cyfyngu ar yr angen i asesu troseddwr risg isel iawn yn ffurfiol wedi gostwng y galw am adnoddau'n sylweddol ac wedi rhyddhau amser gweithwyr achos fel y gallant gyflawni gwaith ymyrraeth gyda'r categori risg uwch.

BUDD I'R CYHOEDD YN SGIL GOSTWNG TROSEDDU

Drwy sicrhau bod adnoddau'n targedu unigolion risg canolig ac uwch, y grŵp sydd fwyaf tebygol o elwa ar ymyrraeth o ansawdd uchel.

